Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Machynlleth
**Tŷ Melfed**
**Craigfryn**
**Machynlleth**
**Powys**
**SY20 8JB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Machynlleth, sydd wedi ei leoli yn Nhŷ Melfed, y ganolfan blant integredig ym Machynlleth, yn awdurdod lleol Powys. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos ac mae ganddo dau aelod o staff llawn amser. Mae'n rhannu'r adeilad gyda'r clwb ar ôl ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 18 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant o ddwy flwydd a hanner i bedair oed. Yn ystod yr arolwg, mynychodd saith plentyn sydd wedi eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae ychydig yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Ionawr 2016. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Tachwedd 2015. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Mehefin 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn newydd iawn i'w rolau.  Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol:

Mae'r cryfderau'n cynnwys:

- Cynnydd cadarnhaol plant o'u mannau cychwyn
- Mae'r plant yn ddysgwyr hapus a hyderus
- Perthnasau cadarnhaol rhwng oedolion a phlant
- Addysgu ysgogol a heriol
- Gofal diwyd a ddarperir gan y staff
- Y gymuned gynhwysol, lle caiff yr holl blant hawl gyfartal I'r holl feysydd dysgu ac offer
- Modelu effeithiol y staff o'r iaith Gymraeg
- Partneriaethau buddiol gydag asiantaethau allanol, sy'n cefnogi'r lleoliad

Mae'r meysydd i'w gwella'n cynnwys:

- Datblygu cynllunio effeithiol i wella medrau'r plant
- Defnyddio ymwelwyr ac ymweliadau i helpu plant i ddeall yr hyn y mae pobl gwahanol yn gwneud yn eu cymuned eu hunain
- Gwella'r gweithdrefnau asesu i herio plant yn ôl eu galluoedd
- Cofnodi asesiadau'n gyson i symud plant ymlaen at y camau nesaf yn eu dysgu
- Gwella'r defnydd o'r awyr agored

### Rhagolygon gwella

Nid yw'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi cael amser i sefydlu arferion rheolaidd ac effeithiol.  Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae swydd yr arweinydd yn newydd a heb sefydlu'n llawn
- Nid yw'r pwyllgor rheoli wedi cael digon o amser i osod cyfeiriad strategol clir i waith y lleoliad
- Mae'r pwyllgor rheoli a'r arweinydd yn dechrau hunanarfarnu'n briodol ac yn targedu anghenion cyfredol y lleoliad yn fwy effeithiol
- Mae datblygiadau diweddar yn dechrau dangos gwelliannau yn y ddarpariaeth
- Mae'r holl staff yn frwdfrydig ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol ac ymarferol i ddatblygu eu sgiliau a'u rolau yn y lleoliad
- Mae'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn targedu gwelliannau'n dda

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Sicrhau bod y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn darparu dilyniant a pharhad i dargedu'n effeithiol y camau nesaf yn dysgu'r plant

A3 Darparu gwell cyfleoedd i blant ddysgu am eu cymuned leol a'r byd ehangach

A4 Gwella arferion asesu a chadw cofnodion i fonitro cynnydd pob plentyn yn gywir

A5 Gwella’r defnydd o'r amgylchedd awyr agored

A6 Sicrhau bod yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n hunanwerthuso’n drylwyr a chynllunio'n strategol i wella arferion arweinyddiaeth a darpariaeth y lleoliad

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd cadarnhaol o'u mannau cychwyn erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran datblygu eu medrau llythrennedd. Ychydig iawn o blant sy'n amharod i drafod syniadau gyda phlant eraill ac oedolion ac mae bron pob un plentyn yn gwrando'n dda ar eraill. Er enghraifft, mae plant yn trafod siapiau yn effeithiol, cwblhau jig-sos yn hyderus ac yn siarad yn synhwyrol am gymysgu dŵr a thywod yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae bron pob plentyn yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod eraill yn eu deall mewn tasgau. Mae llawer o blant yn defnyddio iaith briodol mewn chwarae digymell a strwythuredig.

Mae bron pob un plentyn yn eistedd yn dawel ac yn gwrando'n astud ar storïau. Maent yn ymuno'n frwdfrydig wrth drafod y storïau hyn neu wrth ganu caneuon a hwiangerddi. Mae llawer o blant yn dilyn cyfarwyddiadau'n gywir wrth weini bwyd i'w gilydd o'r ardal gaffi. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn awyddus i ateb cwestiynau am yr hyn y maent yn ei wneud a pham y maent yn ei wneud. Mae tua hanner y plant yn dewis edrych ar lyfrau'n annibynnol. Maent yn dal llyfrau'n gywir ac yn astudio lluniau a geiriau gyda diddordeb. Maent yn adnabod y prif gymeriadau mewn stori ac yn trafod cynnwys y stori'n ddeallus. Maent yn ymateb yn synhwyrol i gynnwys y stori ac yn trafod nodweddion gwahanol anifeiliaid gyda llawer o frwdfrydedd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwrpas ysgrifennu. Mae ychydig o blant yn ffurfio llythrennau a rhifau adnabyddadwy. Mae lleiafrif yn adnabod eu henwau eu hunain ac eraill a rhannu syniadau'n ystyrlon am yr hyn y maent yn ceisio esbonio neu gofnodi ar bapur.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd da. Maent yn cyfrif i ddeg yn hyderus ac yn adnabod ac enwi rhifau i bump. Mae bron pob plentyn yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol yn naturiol yn ystod eu chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio bwcedi a chynwysyddion fel 'bach' a 'mawr' wrth lenwi hwy â thywod a ffa. Maent hefyd yn trafod 'cyflym' ac 'araf' a 'thrwm' ac 'ysgafn' wrth rolio cerbydau yn yr ardal allanol, i weld pa mor bell y maent yn teithio. Mae bron pob un plentyn yn grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl siâp a lliw yn gywir, gan gynnwys siapiau dau a thri dimensiwn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis ac yn defnyddio eu syniadau eu hunain, offer mathemategol priodol, cyfarpar a deunyddiau i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol wrth adeiladu yn ystod chwarae rôl ac wrth bwyso blawd yn ystod gweithgareddau coginio.

Mae llawer o blant yn deall beth i'w wneud pan fyddant yn cael eu cyfeirio yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae lleiafrif o blant yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell.

Mae llawer o blant yn defnyddio offer electronig yn briodol. Maent yn defnyddio botymau yn fedrus i ddechrau chwaraewr cryno ddisgiau i wrando ar ganeuon a hwiangerddi cyfarwydd. Fodd bynnag, mae’r diffyg o ddarpariaeth dechnolegol yn amharu ar ddatblygiad plant.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr hapus a hyderus. Mae bron pob plentyn, yn berthnasol i'w hoed, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach. Mae bron pob plentyn yn golchi eu dwylo’n briodol cyn bwyta byrbrydau a ffrwythau ac yn gwneud hynny heb fawr o anogaeth. Mae bron pob plentyn â dealltwriaeth dda bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau a bod ymarfer corff yn eich cadw'n heini ac yn gwneud eich calon guro'n gyflymach.

Mae agwedd y rhan fwyaf o blant i ddysgu’n dda. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl profiadau a ddarperir ar eu cyfer, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac i'r staff. Mae ymddygiad bron pob plentyn yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymryd rhan lawn ym mhob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser. Mae ychydig yn gweithio'n ddiwyd ar yr holl dasgau a dyfalbarhau nes iddynt gael eu cwblhau’n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ar gyfer eu hunain ac yn gweithio'n dda yn annibynnol.

Mae bron pob plentyn yn ymwneud yn dda iawn â'i gilydd, i oedolion ac i ymwelwyr. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol o anghenion pobl eraill ac yn barod i rannu adnoddau. Mae bron pob plentyn yn cymryd eu tro’n synhwyrol pan fyddant yn gwisgo eu cotiau i adael yr adeilad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn awgrymu syniadau ynghylch beth a sut maent am eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltu a chanolbwyntio.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r broses gynllunio’n newydd. Nid yw'r lleoliad wedi gwreiddio’r cynllunio i mewn i'w harferion dyddiol. Felly, mae'r lleoliad yn darparu ystod addas o weithgareddau ar gyfer plant ar draws pob maes dysgu. Mae'r cynllunio’n bodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Mae'r staff yn cynllunio'r cwricwlwm gyda’i gilydd. Fodd bynnag, nid yw cynllunio'r cwricwlwm wedi cael amser i adeiladu’n bwrpasol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant. Ar hyn o bryd, nid yw'n targedu'r camau nesaf yn dysgu’r rhan fwyaf o blant yn effeithiol. Nid yw'n cysylltu'n effeithiol â gweithdrefnau asesu'r lleoliad, sydd ar hyn o bryd mewn cyfnod o ddatblygiad.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd y plant yn foddhaol. Mae’r tasgau ysgrifennu cynnar a gweithgareddau datblygiad mathemategol, sy'n defnyddio cyfarpar cyfrif penodol, yn ysgogi plant yn dda. Maent yn cael effaith ar safonau’n effeithiol ym mhob maes dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn ddigonol.

Mae'r staff yn defnyddio'r amgylchedd dan do yn effeithlon er mwyn annog plant i brofi gweithgareddau newydd, sy'n datblygu eu medrau meddwl annibynnol yn dda. Er enghraifft, trwy chwarae gyda dŵr a thywod, arbrofi gyda chynhwysion wrth goginio, paratoi picnic ar gyfer tedis a chwarae rôl yn y caffi yn ystod amser byrbryd. Nid yw'r lleoliad yn defnyddio'r ardal awyr agored yn effeithiol. Nid yw darpariaeth y lleoliad ar gyfer yr ardaloedd dysgu yn yr awyr agored yn effeithiol i gefnogi dysgu plant.

Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant yn y Gymraeg. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Maent yn dathlu ac yn dysgu yn llwyddiannus am wyliau Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Nid yw'r cynllunio ar gyfer dysgu am ddiwylliannau eraill yn effeithiol ar hyn o bryd. Nid yw’r plant yn ymweld â lleoedd tu allan i'r lleoliad yn aml ac nid oes ymwelwyr yn mynychu'r lleoliad i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'u cymuned eu hunain.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr holl staff a'r plant. Mae staff yn dechrau datblygu rôl weithredol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u harbenigedd. Mae'r holl staff yn ysgogi a diddori’r plant yn llwyddiannus yn ystod gweithgareddau ffocws i sicrhau bod plant unigol yn cael eu herio'n briodol yn unol â'u galluoedd.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn bositif iawn wrth i'r plant gyrraedd ac maent yn parhau gyda’r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn. Mae'r staff yn caniatáu i bob plentyn i ddewis yn synhwyrol rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a gweithgareddau a arweinir gan blant. Mae staff yn ymyrryd yn bwrpasol yn ystod tasgau ac maent yn caniatáu i blant i ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus.

Mae staff yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithlon. Mae’r staff yn modelu’r Gymraeg yn dda er mwyn datblygu medrau cyfathrebu’r plant. Mae’r staff yn annog y plant i werthuso’n synhwyrol wrth iddynt drafod y tywydd a dwyn i gôf dyddiau'r wythnos wrth eistedd gyda'i gilydd. Y tu mewn i'r adeilad, mae’r staff yn darparu amgylchedd diddorol, sy'n sicrhau bod yr holl blant yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu yn yr awyr agored yn ysgogol a heriol.

Mae'r arferion asesu mewn cyfnod o ddatblygiad cynnar iawn. Mae gweithdrefnau asesu priodol yn bodoli. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi'n gywir yr hyn y gall pob plentyn wneud yn dda a lle mae angen cefnogaeth. Mae cadw cofnodion mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad ac o ganlyniad yn anghyson. Mae'r arweinydd yn cwblhau’r asesiadau cychwynnol ar blant unigol yn ddiwyd. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau yn arwain gyda digon o fanylder i dargedau plant unigol a'r cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Er bod gwelliannau yn y broses yn amlwg, mae'n ddiffyg pwysig. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gyflawniadau eu plant. Mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae'r staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol, drwy gyfleoedd cyson i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo.

Mae'r staff yn caniatáu i blant i osod y bwrdd a gweini ffrwythau, tost a brechdanau i'w gilydd yn yr ardal gaffi cyn eistedd wrth y bwrdd bwyta. Mae helpwr y dydd yn helpu gyda gweini'r bwyd. Mae hyn yn annog y plant i gymryd eu tro'n gwrtais yn ystod amser byrbryd. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ardaloedd plannu mewn teiars yn rhan o'r ardal allanol, fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar hyn o bryd. Mae plant yn ailgylchu bwyd ar ôl amser byrbryd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn briodol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad addas ac mae'r gymhareb o oedolion i blant yn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth addysgu a goruchwylio gweithgareddau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel. Mae'r staff yn cloi'r drws mynediad. Dim ond aelodau staff sy'n agor y drws. Ni all unrhyw un ddod i mewn ac nid oes plentyn yn gallu gadael heb gwmni. Mae'r staff yn cymryd gofal pan fydd plant yn cael eu casglu o'r cyntedd. Mae'r staff yn sicrhau bod plant dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn effeithiol pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant yn dda gyda chymorth ychwanegol. Mae'r staff yn trafod y rhain gyda'r rhieni ac asiantaethau priodol pan fydd yr angen yn codi, sy'n cynnwys cymorth a goruchwyliaeth feddygol. Mae'r arweinydd yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu ac offer. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm priodol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos positif drwy weithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiadwyd gan y staff. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu gwahaniaethau ei gilydd. Mae staff yn defnyddio gwahanol gymeriadau fel dewin a'i gi i gyflawni hyn yn ystod amser cylch ac amser stori.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn llwyddiannus tu mewn i'r adeilad i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae plant yn cael eu hannog yn gyson i symud yn rhydd o amgylch y meysydd dysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae'r adnoddau yn hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi’r dysgu’n rhannu adnoddau’n effeithiol.

Mae'r lleoliad yn trefnu’r ardal allanol yn briodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r staff yn defnyddio'r ardal tu allan yn effeithiol i dargedu medrau plant ym mhob un o'r meysydd dysgu. Mae cyfleoedd cyfyngedig ar gael i blant i dyfu planhigion mewn ardaloedd plannu penodol. Mae ansawdd yr adeilad yn briodol, yn ddiogel ac mewn cyflwr da.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd a benodwyd yn ddiweddar a’r pwyllgor rheoli newydd wedi dechrau defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn effeithlon, sy'n dechrau ar gychwyn gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth ac arferion arweinyddiaeth. Fodd bynnag, oherwydd y newidiadau diweddar a phenodiadau newydd, mae cyfeiriad strategol y lleoliad yn foddhaol. Nid yw'r newidiadau wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar ddatblygu’r ddarpariaeth mewn meysydd allweddol sydd angen gwelliannau.

Mae'r arweinydd wedi dechrau i hyrwyddo gwelliannau. Ar hyn o bryd, mae'n rheoli’r addysgu a’r dysgu’n dda. Mae'r pwyllgor rheoli’n sicrhau bod staff yn deall eu rolau’n llawn ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd fel tîm. Fodd bynnag, nid yw’r pwyllgor rheoli wedi cael digon o amser i werthuso rolau staff yn briodol a thargedu eu datblygiad proffesiynol yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn dda. Mae'r arweinydd yn cymell eraill tuag at welliannau mewn modd cadarnhaol a chefnogol.

Mae gan y pwyllgor rheoli gwell ffocws erbyn nawr ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r lleoliad. Mae'r cynllun gwella yn ddogfen weithredol, sy'n targedu rôl y pwyllgor rheoli fel blaenoriaeth allweddol. Erbyn hyn mae blaenoriaethau clir ar gyfer gwella, a nodwyd trwy weithdrefnau hunanarfarnu realistig. Mae'r prosesau datblygiadol yma’n dechrau sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â'r amcanion gwella. Mae hyn yn cynnwys gwneud rôl y pwyllgor rheoli yn fwy trwyadl a gwella'r ddarpariaeth o ymweliadau ac ymwelwyr â'r lleoliad.

Mae’r staff yn cael mynediad i hyfforddiant perthnasol a phriodol gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae eu cefnogaeth yn y lleoliad wedi tywys yr arweinydd newydd yn synhwyrol drwy gydol cyfnod o newidiadau sylweddol. Mae polisïau yn weithredol erbyn hyn ac mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn addas, fel gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunanarfarnu yn newydd i'r arweinydd. Nid yw'r aelodau presennol o'r pwyllgor rheoli wedi cael amser i gyfrannu at y broses eto. Mae cefnogaeth yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn dechrau effeithio ar y broses yn fuddiol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi cael digon o amser i ddangos effaith eu gwaith ar wella'r ddarpariaeth ac arferion arweinyddiaeth trwy fabwysiadu strategaethau newydd a chyngor gwerthfawr eraill. Mae'r prosesau yn foddhaol.

Mae'r arweinydd a'r staff yn fwy gwybodus erbyn nawr am waith cyfredol y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n datblygu gweithdrefnau mwy cyson i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth. Mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol o ddydd i ddydd, sy'n hyrwyddo gwell dealltwriaeth o anghenion y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli yn defnyddio cyllid yn effeithiol ar gyfer adnoddau a staffio effeithlon.

Mae cysylltiadau clir rhwng hunanarfarnu'r lleoliad a'r targedau y cynllun gwella, sy'n canolbwyntio ar welliannau mewn datblygiad mathemategol a medrau TGCh y plant, gwella'r defnydd o'r ardal awyr agored a datblygu pwyllgor rheoli mwy effeithiol. Felly, mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn dechrau dylanwadu ar waith y lleoliad.

Mae'r arweinydd a'r staff yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, maent yn defnyddio systemau cynllunio ac asesu'r awdurdod lleol yn fwy effeithiol. Mae hyn yn dechrau effeithio ar ansawdd y profiadau dysgu'n fuddiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r staff yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Er enghraifft, gwahoddodd y lleoliad rhieni'n ddiweddar i fore agored llwyddiannus.

Mae rhieni a gofalwyr, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad gyda'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi safonau'r gofal ac ansawdd y cymorth wrth oedolion sydd ar gael. Maent yn ymhyfrydu yn y polisi drws agored a'r cyfleoedd i gyfarfod â staff yn ddyddiol. Felly, mae'r berthynas rhwng plant, rhieni a gofalwyr a'r staff yn gadarnhaol.

Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgol leol yn briodol. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ac mae'r lleoliad yn ymweld â'r ysgol i ddefnyddio ei offer pan fo angen.

Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan y Mudiad Meithrin o fudd i'r lleoliad, drwy weithredu polisïau a thrwy roi cyngor i'r pwyllgor rheoli. Mae'r cydweithrediad cryf rhwng yr awdurdod lleol a'r lleoliad yn fuddiol iawn i ddatblygiad y lleoliad. Mae perthynas gadarnhaol yn bodoli gyda'r ddwy asiantaeth. Erbyn hyn, mae eu cyngor ac awgrymiadau yn helpu i symud y lleoliad ymlaen ac yn cyfrannu'n dda at y ddarpariaeth sy'n datblygu.

Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am blant ar lafar. Maent yn gwybod gyda phwy i gysylltu os oes angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant. Maent yn defnyddio'r cysylltiadau hyn i gefnogi dysgu plant pan fo angen ac ar ôl trafodaethau gyda rhieni a gofalwyr.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Nid yw'r arweinydd a benodwyd yn ddiweddar a'r pwyllgor rheoli newydd wedi cael digon o amser i sicrhau gwelliannau yn y lleoliad. Mae'r newidiadau mewn staffio ac yn y pwyllgor rheoli wedi achosi anghysondebau yn datblygiad y lleoliad. Mae safonau a lles y plant yn dda, fodd bynnag, nid yw hyn oherwydd darpariaeth y lleoliad a'r arweinyddiaeth ar hyn o bryd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd staff yn dda ac mae staff yn gweithio ochr yn ochr yn effeithiol â'i gilydd i wella cyflawniadau'r plant. Mae'r addysgu'n dda. Mae cefnogaeth asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol yn sicrhau gwell cysondeb i'r arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mae sicrhau gwelliannau drwy gynllunio strategol a blaenoriathau gwella heb gael ei hymgorffori eto.

Mae'r cynllunio strategol yn dechrau targedu anghenion y lleoliad yn fwy effeithiol. Er bod llawer o gymhlethdodau yn ystod y cyfnod diweddar wedi effeithio ar staffio, mae'r arweinydd newydd a'r pwyllgor rheoli wedi llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff cymwys gyda'r hyfforddiant priodol i gynnal y ddarpariaeth gymunedol.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei hadnoddau yn foddhaol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau. Mae ganddo adnoddau dan do effeithiol. Mae'r lleoliad yn defnyddio hwy'n synhwyrol i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac mae hyn yn annog annibyniaeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn defnyddio'r ardal allanol yn effeithiol.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o'i gyllideb ac mae'n rheoli'n dda. Mae'n blaenoriaethu'r gwariant yn unol â'r targedau ar gyfer gwelliant yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian oherwydd y meysydd pwysig sydd angen eu datblygu yn ei harweinyddiaeth ac yn y ddarpariaeth.

# Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 11 | 9<br>82% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 11 | 9<br>82% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 11 | 9<br>82% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 7 | 4<br>57% | 3<br>43% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 5<br>45% | 5<br>45% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 11 | 8<br>73% | 2<br>18% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 9 | 4<br>44% | 4<br>44% | 1<br>11% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 4<br>40% | 4<br>40% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 11 | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |